



Hanes Guide Dogs

Adnodd Hanes (cymhariaeth) i bobl ifanc 11 i 14 oed

I gael rhagor o wybodaeth am Guide Dogs neu i gael mwy o adnoddau dysgu, ewch i guidedogs.org.uk/learning



Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (209617)
a'r Alban (SC038979). GD0466 07/21

**1931
2021**
Guide Dogs
90 Years

Croeso i Hanes Guide Dogs adnodd CA3

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys cyfres o weithgareddau am hanes cŵn tywys yn y Deyrnas Unedig ac effaith yr Ail Ryfel Byd, a arweiniodd at ffurfio elusennau cŵn tywys ledled y byd. Mae'r adnoddau'n addas ar gyfer pobl ifanc 11 i 14 oed. Ysgrifennwyd y cynnwys i fodloni gofynion y cwricwlwm Hanes ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hefyd yn cefnogi gwaith grŵp a thrafodaeth, creadigrwydd a datblygu sgiliau ysgrifennu, meddwl, cyfathrebu a TGCh.

Ynglŷn â Guide Dogs

Er 1931, mae Guide Dogs wedi bod yno ar gyfer pobl sydd wedi colli eu golwg a'r rhai o'u cwmpas – bob dydd a phob cam o'r ffordd. Heddiw, rydym yn arwain y byd ym maes bridio a hyfforddi cŵn gwaith, gan greu partneriaethau unigryw sydd wedi'u cyfateb yn ofalus ac sy'n darparu cefnogaeth sy'n newid bywydau. Ond mae cymaint mwy i ni na hynny.

Wrth i ni dyfu, felly hefyd ein gwasanaethau, a ddarperir gan bobl wych ac ymroddedig sy'n gweithio ochr yn ochr â'n cŵn gwych. Rydym yn creu partneriaethau gyda thywyswyr â golwg, a chysylltiadau ag ymgynghorwyr dibynadwy, a all gynnig cefnogaeth i bobl â nam ar eu golwg, eu teulu, a'u ffrindiau. Rydym yn ymroddedig i helpu plant a phobl ifanc sydd wedi colli eu golwg i ddysgu, tyfu a chael mynediad i'r un cyfleoedd â phawb arall. A phan fo angen gallwn bartneru pobl â chŵn cyfaill neu gydymaith a dod â phobl ynghyd i gefnogi ei gilydd a rhannu eu profiadau.

O hyfforddi cŵn bach i gynnig cyngor ar y dechnoleg hygyrch ddiweddaraf, o godi arian hanfodol i hybu ymchwil arloesol, mae ein staff, gwirfoddolwyr – a rhoddwyr – wedi rhoi'r help sydd ei angen ar filoedd i fyw'r bywyd y maent yn ei ddewis. I ddarganfod mwy am ein holl wasanaethau, ewch i

guidedogs.org.uk

**1931
2021**
Guide Dogs
90 Years

Cysylltiadau i'r Cwricwlwm

Lloegr

Ymestyn a dwysau gwybodaeth a dealltwriaeth cronolegol sicr o hanes Prydain, lleol a'r byd. Nodi digwyddiadau o bwys, gwneud cysylltiadau, tynnu gwrthgyferbyniadau, a dadansoddi tueddiadau o fewn cyfnodau a thros arcau

hir o amser • Rhyfel Byd Cyntaf • Ail Ryfel Byd • heriau ar gyfer Prydain, Ewrop, y byd ehangach. Newid cymdeithasol, diwylliannol a thechnolegol yng nghymdeithas Prydain ar ôl y rhyfel.

Yr Alban

SOC 3-01a defnyddio gwybodaeth am gyfnod hanesyddol i ddehongli'r dystiolaeth a chyflwyno barn wybodus • SOC 3-05a disgrifio'r ffactorau sy'n cyfrannu at newid cymdeithasol, gwleidyddol neu economaidd mawr yn y gorffennol ac asesu'r effaith

ar fywydau pobl • SOC 3- 06a – trafod cymhellion y rhai a fu'n rhan o drobwynt sylweddol yn y gorffennol, asesu'r canlyniadau a gafodd bryd hynny ac ers hynny.

Gogledd Iwerddon

Datblygu Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Sgiliau disgyblion: Ymchwilio i'r gorffennol a'i effaith ar ein byd heddiw • ddatblygu ymholi • sgiliau meddwl beirniadol • sgiliau meddwl creadigol • sgiliau ymwybyddiaeth gronolegol • herio safbwyntiau ystrydebol, rhagfarnllyd neu ystumiedig • Hanes Prydain.

Amcan 2 Datblygu disgyblion fel Cyfranwyr i Gymdeithas: Ymchwilio i effaith digwyddiadau / syniadau arwyddocaol yr 20fed ganrif ar y byd, er enghraifft, rhyfel.

Cymru

Ymwybyddiaeth gronolegol • Gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol Dehongliadau o hanes • Ymholiad hanesyddol • Gofyn ac ateb cwestiynau arwyddocaol • Trefniadaeth a chyfathrebu • Prydain, sut mae rhai unigolion a digwyddiadau'r ugeinfed ganrif wedi siapio ein byd heddiw • Gofyn ac ateb y cwestiynau, pa wybodaeth hanesyddol sydd gennych

chi; sut wnaethoch chi ei ennill a beth arall yr hoffech chi ei wybod? Beth oedd y newidiadau allweddol yn y cyfnod hwn; pa effaith gafodd y newidiadau hyn ar Brydain a'r byd? Pa arwyddocâd sydd i'r cyfnod hwn o hanes i'n byd heddiw?

Geiriau allweddol

Hanes • Rhyfel Byd 1af • nwy • Prydain • cyn-filwr • yna • nawr • modern • gorffennol • newidiadau • hanesyddol • hen • Ail Ryfel Byd • cymharu • llinell amser • cronolegol • diweddar • achos.

Cyflwyniad

Cyflwynwch eich dosbarth i Guide Dogs, gyda'r fideo hwn Ni yw Guide Dogs



Gweithgaredd 1 – Llinell Amser

Gofynnwch i'ch grŵp gwblhau gweithgaredd llinell amser Guide Dogs, trwy roi'r dyddiadau cywir wrth ymyl pob un o'r digwyddiadau. Mae ganddyn nhw hefyd yr opsiwn i dorri pob llinell allan a glynu'r digwyddiadau ar ddarn arall o bapur, yn y drefn gywir.

Atebion i athrawon – 12,000 CC – Cŵn wedi'u dofi, 79 murlun Rhufeinig, 1200 – celf ganoloesol, 1780 – ysbyty “Les Quinze-Vigts”, 1847– Jakob Birrer, 1914–18 Rhyfel Byd 1, 1931 Guide Dogs UK, 1934 Cymdeithas Guide Dogs i'r Deillion, 1940 – Ail Ryfel Byd, 1956 Cynllun cŵn bach, 2013 My Sighted Guide, 2017 Plant a Phobl Ifanc.

Gweithgaredd 2 – Hanes Guide Dogs gweithgaredd darllen

Gofynnwch i'ch grŵp ddarllen y darn ar “Hanes Guide Dogs” ac ateb y cwestiynau. Fideo dewisol llinell amser y Guide Dogs

Gweithgaredd estyniad 1 – Trafodaeth Grŵp – Ar ôl darllen y darn ac ateb y cwestiynau, anogwch eich grŵp i drafod y canlynol:

Sut brofiad fyddai bywyd i bersonél gwasanaeth a anafwyd a gweithwyr ffatri, yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf?

Defnyddiwch yr ysgogiadau canlynol:

- Bywyd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf
- Sut y gallai bywyd fod wedi bod yn y ffosydd
- Bywyd yn y ffatrioedd (pwy fyddai wedi gweithio yn y ffatrioedd?)
- Sut y gallai pobl fod wedi cael eu hanafu
- Pa ofal meddygol fyddai ar gael ar y ffrynt ac adref yn y 1920au (dim GIG tan 1948)
- Pa gymorth fyddai wedi bod ar gael i'r rheini ag anableddau oedd yn newid eu bywyd

Gweithgaredd estyn 2 – Trafodaeth grŵp

Sut mae Guide Dogs wedi newid o 1931 i nawr? Beth sydd wedi aros yr un peth?

Opsiwn – Gwylwch fideo Nell.

Gweithgaredd 3 – Gweithgaredd ysgrifenedig / ymchwil (tasg gwaith cartref bosibl)

Gofynnwch i'ch grŵp ddefnyddio'r darn ar y “Hanes Guide Dogs”, yr awgrymiadau gweithgaredd a ffynonellau ar-lein i:

Opsiwn A – Ysgrifennwch erthygl papur newydd am Guide Dogs fel petaech yn un o'r papurau newydd cyntaf a ysgrifennodd am y gwasanaeth newydd hwn (ym 1931).

Opsiwn B – Ysgrifennwch gyfrif personol, gan ddychmygu mai chi oedd un o'r perchnogion cŵn tywys cyntaf. Ysgrifennwch am eich bywyd cyn i chi golli'ch golwg a'ch bywyd nawr.



Gweithgaredd 1 – Llinell Amser

Dewch o hyd i'r dyddiad cywir yn y rhestr isod a'i ysgrifennu wrth ymyl y disgrifiad o'r digwyddiad.

12,000 CC (14,200 o flynyddoedd yn ôl)	1780 (18fed Ganrif OC)	1847 (19eg Ganrif OC)	1934 (20fed Ganrif OC)
1914-18 (20fed Ganrif OC)	2017 (21ain Ganrif OC)	1956 (20fed Ganrif OC)	1931 (20fed Ganrif OC)
2013 (21ain Ganrif OC)	790C (Canrif 1af OC)	1200OC (13eg Ganrif OC)	1940 (20fed Ganrif OC)

Y Rhyfel Byd Cyntaf sy'n ail-ysgogi diddordeb mewn cŵn tywys oherwydd bod cymaint o ddynion ifanc yn cael eu dallu.	
Cynllun magu cŵn bach Guide Dogs yn cychwyn.	
Mae murlun o Herculaneum Rhufeinig (Pompeii) yn dangos person dall yn cael ei arwain gan gi.	
Guide Dogs a Blind Children UK yn uno ac mae gwasanaethau Guide Dogs Plant a Phobl Ifanc yn cychwyn.	
Ymgais gyntaf i hyfforddi cŵn tywys yn ffurfiol yn ysbyty "Les Quinze-Vigts" ar gyfer y deillion ym Mharis.	
Mae'r Ail Ryfel Byd yn achosi i Guide Dogs symud i Leamington Spa.	
Mae'r gwasanaeth My Sighted Guide yn cychwyn – helpu pobl sydd wedi colli eu golwg i fynd allan gyda gwirfoddolwr.	
Mae cŵn yn dechrau cael eu dofi gan bobl am y tro cyntaf.	
Mae celf ganoloesol yn dangos delwedd o berson dall gyda ffon yn cael ei arwain gan gi.	
Mae'r pedwar person cyntaf yn hyfforddi gyda'u cŵn tywys yn y DU.	
Mae Jakob Birrer yn ysgrifennu am gael ei dywys gan gi yr oedd e wedi'i hyfforddi'n arbennig.	
Defnyddir y teitl "The Guide Dogs for the Blind Association" am y tro cyntaf.	

Gweithgaredd 2 – Hanes cŵn tywys yn y Deyrnas Unedig

Darllenwch y darn ac atebwch y cwestiynau.

Trwy'r oesoedd mae cŵn wedi gwasanaethu a chyfeillio dynion mewn ffyrdd dirifedi fel partneriaid gwaith, gwarchodwyr a chymdeithion.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd llawer o filwyr a gweithwyr ffatri yn wynebu i ffrwydradau nwy mwstard neu sieliau, a achosodd iddynt golli eu golwg.

Arweiniodd hyn at gychwyn yr ysgol cŵn tywys gyntaf yn yr Almaen ar ôl i feddyg a oedd yn gofalu am gleifion a anafwyd yn y rhyfel ddarganfod bod ei gi yn ymddwyn yn dda gydag un o'r dynion a oedd yn ddall. Ym 1931, darllenodd Muriel Crooke a Rosamund Bond stori am gŵn tywys a threfnu i gynnal cynllun prawf ym Mhrydain.

Dechreuwyd hyfforddi pedwar perchennog cŵn tywys cyntaf Prydain ddiwedd haf 1931 yn Wallasey, Sir Gaer. Fe orffennont eu hyfforddiant ym mis Hydref 1931.

Ym 1932, Chwe mis ar ôl cael ei gi tywys, ysgrifennodd Allen Caldwell, 'Mae Flash wedi chwyldroi fy mywyd awyr agored.' 'Nid yn unig y mae fy nghi wedi rhoi rhyddid ac annibyniaeth ogoneddus i mi, na fu'n bosibl ers dyddiau cyn y rhyfel, ond cwmnïaeth hyfryd.'

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'n rhaid i'r hyfforddiant symud i Leamington Spa oherwydd bod Wallasey wedi dioddef llawer o fomio ac nid oedd yn ddiogel. Roedd yn rhaid gwneud trefniadau i gŵn tywys gael eu caniatáu mewn llochesi cyrch awyr ac roedd lwfans arbennig hefyd ar gyfer bwyd cŵn grawnfwyd.

Wrth i Guide Dogs dyfu, roedd angen mwy o gŵn arnyn nhw, felly ym 1956 prynwyd cŵn bach a ddewiswyd yn arbennig a'u gosod gyda 'Magwyr' a oedd yn gofalu amdanyn nhw. Erbyn 1958 roedd bron i 60 o gŵn bach yn cael eu magu.

Wrth edrych yn ôl, mae'n syndod efallai na ddechreuodd hyfforddiant cŵn tywys wedi'i drefnu yn gynharach. Mae cŵn wedi bod yn gysylltiedig â'r deillion fel amddiffynwyr a thywyswyr, ar ba ffurf gyntefig bynnag, am o leiaf 1,000 o flynyddoedd. Mae yna lawer o enghreifftiau yng nghelf Ewropeaidd o ddeillion yng nghwmni cŵn. Mae lluniau wedi'u cofnodi o'r cyfnod Rhufeinig





a Chanoloesol o gŵn yn cerdded gyda pherchnogion dall sydd hefyd yn defnyddio ffon. Hyd yn oed cyhoeddi gwerslyfr ar gyfer Addysgu'r Deillion yn Fienna ym 1819, sy'n disgrifio hyfforddiant ci gyda les anhyblyg i arwain y deillion.

Heddiw, Guide Dogs UK yw bridiwr a hyfforddwr cŵn gwaith mwyaf y byd ac mae'n creu dros 600 o bartneriaethau cŵn tywys newydd y flwyddyn. Mae'r elusen hefyd yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi colli eu golwg trwy nifer o wasanaethau gan gynnwys y gwasanaeth cŵn cyfaill a Customeyes, sy'n darparu llyfrau print bras pwrpasol. Mae ganddo wasanaethau eraill ar gyfer oedolion gan gynnwys My Sight Guide, sy'nparu unigolyn â cholled golwg â gwirfoddolwr, sy'n eu helpu i fynd o gwmpas yn ddiogel.

Tasg: Atebwch y cwestiynau canlynol

Beth oedd nod Guide Dogs, pwy wnaethon nhw geisio eu cefnogi i ddechrau?

Yn eich barn chi, beth wnaeth ysgogi'r rhai a ddechreuodd y gwasanaeth cŵn tywys?

Sut oedd hyn yn wahanol i ymdrechion pobl i ddefnyddio cŵn fel tywyswyr yn y gorffennol?

Pa ddigwyddiad mawr a gyflymodd yr angen am gŵn tywys?

Beth achosodd i'r elusen newid lleoliad?

Pam ydych chi'n meddwl bod yn rhaid rhoi lwfansau arbennig ar gyfer bwyd cŵn grawnfwyd?

Beth oedd yn digwydd yn ystod yr amser hwn mewn hanes?

Pa ffactorau eraill yn y gymdeithas fodern a allai fod wedi helpu gyda thwf y mudiad cŵn tywys modern. (meddyliwch am newidiadau mawr yr 20fed ganrif).

Sut mae'r penderfyniad i gychwyn Guide Dogs wedi cael effaith ar fywydau mwy o bobl heddiw?

Gweithgaredd 3A – Erthygl papur newydd

Ysgrifennwch erthygl papur newydd ar y pedwar ci tywys cyntaf. Cofiwch fod hwn yn syniad newydd iawn a byddai'r cyhoedd wedi synnu gweld y cŵn yn tywys eu perchnogion. Defnyddiwch y paragraff "Hanes cŵn tywys" (gweithgaredd 2) ac ymchwiliwch ar-lein i gael straeon am berchnogion cŵn tywys, neu am y rhai a anafwyd wrth wasanaethu yn y lluoedd arfog.

Defnyddiwch yr awgrymiadau canlynol i gyfansoddi'ch erthygl.

Pwy

Am bwy mae'r erthygl yn sôn, pwy feddylodd am y syniad, pwy sy'n cael ei helpu? Cynnwys dyfyniadau gan y cyhoedd a pherchnogion cŵn tywys?

Beth

Beth ddigwyddodd, beth achosodd yr angen am gŵn tywys, sut beth oedd bywyd cyn iddynt gael eu ci?

Pryd

Pryd ddigwyddodd, a allwch chi roi llinell amser o ddigwyddiadau?



Pam

Pam ddigwyddodd, pam mae pobl angen y cŵn?

Sut

Sut gall pobl ddarganfod mwy, sut mae bywyd wedi newid i'r bobl yr effeithiwyd arnynt, sut mae cael ci tywys wedi newid eu bywyd?

Ble

Ble oedd y bobl pan gollon nhw eu golwg, ble ddechreuodd hyn i gyd, ble arall mae'n digwydd?



Gweithgaredd 3B – Hanes personol

Ysgrifennwch hanes personol fel petaech yn un o'r perchnogion cŵn tywys cyntaf.

Defnyddiwch y paragraff "Hanes cŵn tywys yn y Deyrnas Unedig" (gweithgaredd 2) ac ymchwiliwch ar-lein i gael straeon am berchnogion cŵn tywys, neu am y rhai a anafwyd wrth wasanaethu yn y lluoedd arfog.

Dychmygwch sut brofiad fyddai bod yn un o oroeswyr y Rhyfel Byd Cyntaf. Efallai y bu brwydr, neu efallai eich bod wedi gweithio yn un o'r ffatrioedd arfau rhyfel / gwneud bomiau, dychmygwch fod ffrwydrad, ac achosodd hyn ichi golli'ch golwg. Sut fyddai bywyd i chi cyn, yn ystod ac ar ôl. Dychmygwch sut y byddai'n teimlo i fynd allan am y tro cyntaf gyda'ch ci tywys?

Ceisiwch gydymdeimlo â'ch cymeriad, meddyliwch am y pwyntiau canlynol, ac ysgrifennwch gyfrif uniongyrchol.

Sut oedd eich bywyd cyn y rhyfel?

Sut ydych chi'n teimlo am y rhyfel?

Pa golledion eraill ydych chi wedi'u profi (ffrindiau, teulu)?

Sut ydych chi'n teimlo pan fydd pobl yn dweud eich bod chi'n arwr neu'n lwcus i fod yn fyw?

Pa fudd-daliadau sydd ar gael i chi?

Beth ddigwyddodd i chi yn yr eiliadau ar ôl y ffrwydrad?

Sut mae'ch teulu a'ch ffrindiau wedi eich trin chi?

Sut brofiad yw mynd o gwmpas a chwblhau tasgau dyddiol?

Beth mae eich ci tywys yn ei wneud, sut mae'n eich helpu chi?

Sut ydych chi'n teimlo ers cael eich ci?

Beth nesaf?

Beth yw eich dyheadau?



